| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **24 Chwefror 2026** |
| **Pwnc:** | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol ar gyfer 2026/27** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y Cynghorydd Neville V Evans** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Arwel Wyn Owen** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Carwyn Edwards, Rheolwr Cyllid**<br>01248 752699<br>CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Pob Aelod** |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhelliad**

Rydym yn argymell cynnydd o 5% mewn ffioedd Preswyl, Preswyl Dementia, Nyrsio a Nyrsio Dementia. Mae'r argymhellion wedi'u crynhoi ar ddiwedd yr adran hon (A1 – A4).

**Cefndir**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol (ALl) adolygu ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol bob blwyddyn i gyd-fynd â newidiadau'r Llywodraeth Ganolog i fudd-daliadau a lefelau pensiynau. Ers 6 Ebrill 2016, mae'r fframwaith ar gyfer asesiadau ariannol a chodi ffioedd bellach yn dod o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Wrth bennu ffioedd ar gyfer cartrefi gofal y sector annibynnol, rhaid i ni ddangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i gostau'r ddarpariaeth wrth benderfynu ar ein ffioedd gofal sylfaenol. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r fethodoleg ranbarthol fel meincnod ar gyfer ffioedd 2026/27. Mae'r fethodoleg hon yn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth mewn perthynas â chwyddiant, y Cyflog Byw Gwirioneddol a newidiadau mewn deddfwriaeth Tâl Salwch Statudol. Wrth adolygu'r ffioedd, rydym wedi ystyried amgylchiadau lleol, y pwysau ar y galw ac argaeledd darpariaeth.

Ar ôl trafod â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, ac wrth gydnabod y pwysau ariannol y mae ein darparwyr yn ei wynebu, rydym yn argymell cynnydd o 5% yn ein ffioedd, sy'n uwch na'r cynnydd ar sail chwyddiant a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r fethodoleg ranbarthol a'r hyn â ddyfarnwyd i ddarpariaeth fewnol.

Mae Tabl 1, isod, yn nodi'r ffioedd yn seiliedig ar y cynnydd ar sail chwyddiant, heb gynnwys unrhyw daliad atodol ar sail y farchnad, ac mae Tabl 2 yn nodi'r cyfraddau arfaethedig ar gyfer Ynys Môn, yn cynnwys taliadau atodol ar sail y farchnad er mwyn cydnabod y pwysau mae darparwyr yn ei wynebu.

Nid yw'r ffioedd isod yn Nhabl 1 a 2 ar gyfer gofal nyrsio yn cynnwys elfen gofal nyrsio di-dâl (FNC) yr ALl nac elfen FNC y Bwrdd Iechyd (BI). Cyfradd FNC presennol y BI ar gyfer 2025/26 yw £229.46, a chyfradd FNC yr ALl ar gyfer 2025/26 yw £9.30. Bwriedir adolygu'r cyfraddau hyn yn ystod y misoedd nesaf, ac mae disgwyl i'r cynnydd yn sgil chwyddiant gael ei gyhoeddi'n fuan ar ddechrau blwyddyn ariannol 2026/27.

**Tabl 1 - Ffioedd ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar y methodoleg ffioedd (heb gynnwys Taliadau Atodol ar sail y Farchnad)**

| Categori | Ffi 2025/26 | Ffi Arfaethedig 2026/27 | Cynnydd o gymharu â ffioedd 2025/26 | % cynnydd o gymharu â ffioedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| Preswyl (Oedolion) | £810.33 | £847.13 | £36.80 | 4.54% |
| Preswyl (Dementia) | £847.12 | £885.94 | £38.82 | 4.58 % |
| Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £883.91 | £924.72 | £40.81 | 4.62% |
| Nyrsio (Dementia) (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £957.47 | £1,002.28 | £44.81 | 4.68% |

**Tabl 2 - Ffioedd Arfaethedig Ynys Môn ar gyfer 2026/27**

| Categori | Ffi 2025/26 (Ebrill 2025) | Ffi Arfaethedig 2026/27 | Cynnydd o gymharu â ffioedd 2025/26 | % cynnydd o gymharu â ffioedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| Preswyl (Oedolion) | £832.56 | £874.18 | £41.62 | 5.00% |
| Preswyl (Dementia) | £930.37 | £976.89 | £46.52 | 5.00% |
| Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £906.70 | £952.07 | £45.37 | 5.00% |
| Nyrsio (Dementia) (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £1,071.41 | £1,125.03 | £53.62 | 5.00% |

Bydd y cynnydd o 5%, os caiff ei gymeradwyo, yn berthnasol i gartrefi sy'n derbyn ein cyfraddau safonol. Gofynnir i unrhyw un sy'n derbyn ffioedd sydd yn uwch na'n cyfradd ddangosol ar hyn o bryd rannu gwybodaeth ariannol, fel y gellir ystyried cynyddu'r ffi.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen ystyried ceisiadau unigol gan ddarparwyr mewn perthynas â'r ffioedd hyn. Petai tystiolaeth glir i ddangos nad yw'r ffi a bennwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd angen i'r Cyngor ystyried eithriadau i gyfraddau'r ffi. Argymhellir bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu dirprwyo i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:-

1. Gymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r ffioedd fel a ganlyn:-
   A1 - Gofal Preswyl (Pobl Hŷn) - **£874.18 yr wythnos**;
   A2 - Preswyl (Dementia) - **£976.89 yr wythnos**;
   A3 - Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) - **£952.07 yr wythnos** (heb gynnwys FNC yr ALI a'r BI);
   A4 - Nyrsio (Dementia) (Elfen Gofal Cymdeithasol) - **£1,125.03 yr wythnos** (heb gynnwys FNC yr ALI a'r BI).

Yn yr un modd ag ALI eraill, gofynnwn i'r Pwyllgor Gwaith awdurdodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cyllid i ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i edrych ar eu cyfrifon penodol, a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Bydd rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion o'r cyllidebau presennol.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | | |
|---|---|---|
| Fe wnaethom ystyried seilio’n ffioedd ar gyfer 2026/27 ar y fethodoleg ranbarthol ond, er mwyn cydnabod y pwysau y mae darparwyr yn ei wynebu, penderfynom beidio â gwneud hynny eto eleni, a chynnig taliad atodol ar sail y farchnad ar ben y ffi a gyfrifwyd gan y fethodoleg. | | |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Mae angen i Awdurdodau Lleol bennu ffioedd cartrefi gofal yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â’r penderfyniad hwn sy’n effeithio ar gyllideb yr Awdurdod Lleol ac o ran fforddiadwyedd yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. | | |
| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydy | | |
| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Mae cost ychwanegol cyllido’r ffioedd uchod wedi’i chynnwys ym mhroses yr Awdurdod ar gyfer gosod y gyllideb. | | |
| **DD – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Bwriedir iddo gefnogi ac annog darpariaeth newydd mewn meysydd twf. |
| **2** | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Ddim yn berthnasol |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy | Mae trafodaethau’n parhau ar lefel ranbarthol. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae’r penderfyniad yn effeithio’n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Rydym wedi ystyried gohebiaeth gan Fforwm Gofal Cymru a darparwyr unigol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bwriedir iddo helpu i gefnogi unigolion a warchodir o dan y Ddeddf. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Dim effaith |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | Dim effaith |
| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae’r TA wedi trafod y papur ac mae eu sylwadau wedi’u hymgorffori yn y papur hwn. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | Mae’r Swyddog Monitro’n aelod o’r TA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Ddim yn berthnasol |
| **F - Atodiadau:** | | |
| d/b | | |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| Dim | | |